# Y cynnig i gau Ysgol Llansteffan

## Adroddiad Gwrthwynebu



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ........ 3

**Y Camau Nesaf** ........ 5

**Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol** ........ 6

**Crynodeb o'r Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol** ........ 42

**Adborth Disgyblion** ........ 44

**Opsiynau Amgen** ........ 47

## Crynodeb Gweithredol

**Papur Cynnig**

Cafodd Ysgol Llansteffan ei nodi ar gyfer adolygiad yn dilyn Asesiad Hyfywedd o bob ysgol gynradd. Aseswyd yr ysgol yn erbyn y Meini Prawf Hyfywedd a nodir yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg sydd wedi'i diweddaru, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024.

Yn dilyn asesiad yn erbyn y Meini Prawf Hyfywedd, cynhaliwyd trafodaeth lunio gyda'r ysgol yn ystod Tymor y Gwanwyn 2025, i drafod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol. Gofynnwyd i'r ysgol roi adborth i'r Awdurdod Lleol yn dilyn y drafodaeth a chafodd yr adborth hwn ei gynnwys mewn papur cynnig i'w ystyried gan y Cabinet. Cyflwynir crynodeb lefel uchel o'r heriau sy'n wynebu'r ysgol isod.

- Nifer y disgyblion yn eithriadol o isel
- Nifer uchel o leoedd gwag
- Nifer fawr o ddisgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill
- Amcanestyniadau disgyblion yn awgrymu mai bach yw'r tebygolrwydd o nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf
- Rhagwelir diffyg yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Cafodd y papur cynnig ei ystyried gan y Cabinet ar 17 Tachwedd 2025 a chytunodd y Cabinet i gyhoeddi hysbysiad statudol ar yr opsiwn a ffefrir, sef:

- Cau Ysgol Llansteffan ar 31 Awst 2026 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangain o 1 Medi 2026.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, oherwydd bod nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn llai na 10 adeg cyfrifiad Ionawr 2025, roedd yr Awdurdod Lleol yn gallu dilyn gweithdrefn symlach, heb y gofyniad ar gyfer ymgynghoriad cyffredinol**,** gan symud ymlaen yn syth i gyhoeddi hysbysiad statudol.

**Cyhoeddi Hysbysiad Statudol**

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin y cynnig drwy Hysbysiad Statudol ar 25 Tachwedd 2025 am 28 diwrnod hyd at 23 Rhagfyr 2025.

Cafwyd cyfanswm o **201** o sylwadau mewn ymateb i'r hysbysiad statudol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law.  Rhaid nodi, o'r 198 o wrthwynebiadau a gafwyd, bod 196 wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod

gwrthwynebu. Daeth 2 wrthwynebiad i law ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu, ond mae'r rhain hefyd wedi'u cynnwys o fewn dadansoddiad yr adroddiad hwn.

| **Y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law** | |
|---|---|
| Arolwg ar-lein | 103 |
| E-bost | 62 |
| Llythyr | 33 |
| **Cyfanswm** | **198** |

Mae'r tabl isod yn nodi'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law. Rhaid nodi bod pob un o'r 3 sylw cefnogol a gafwyd wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

| **Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law** | |
|---|---|
| Arolwg ar-lein | 3 |
| E-bost | 0 |
| Llythyr | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** |

## Yr Adroddiad Gwrthwynebu

Mae'r adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law a oedd yn gwrthwynebu neu'n cefnogi'r cynnig ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn.

Er cyflawnder, mae'r ymatebion hyn wedi eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad hwn ac mae themâu'r gwrthwynebiadau neu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law fel a ganlyn:

### Pryderon

- **Thema 1 –** Yr ysgol yw calon y gymuned
- **Thema 2 –** Capasiti a Maint Dosbarthiadau Ysgol Llangain
- **Thema 3 –** Effaith ar Deithio Llesol a Chludiant
- **Thema 4 –** Tai Newydd
- **Thema 5 –** Effaith ar y Gymraeg
- **Thema 6 –** Dysgu yn yr Awyr Agored a Chyfleusterau Ysgol
- **Thema 7 –** Hen Ddata a Chynnydd yn Nifer y Disgyblion
- **Thema 8 –** Effaith ar yr Amgylchedd
- **Thema 9 –** Proses / Asesiadau Effaith
- **Thema 10 –** Arbedion Ariannol
- **Thema 11 -** Anghenion Dysgu Ychwanegol
- **Thema 12 –** Llesiant Disgyblion

- **Thema 13 –** Mae Ysgol Lai yn Darparu Amgylchedd Dysgu Gwell ac mae Safonau Addysg wedi Gwella
- **Thema 14 –** Ffederasiwn yn ei gyfanrwydd
- **Thema 15 –** Parcio yn Ysgol Llangain
- **Thema 16 –** Ymgynghori â Disgyblion

**Sylwadau Cefnogol**

- **Thema 1 –** Heb fod yn ddefnydd effeithiol o adnoddau ariannol

## Y Camau Nesaf

Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac yna, yn y pen draw, i'r Cyngor Sir, a fydd yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Llansteffan ai peidio.

## Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Mae'r tabl isod yn nodi themâu'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny:

| **Rhif y Pwynt** | **Y Pwynt a Godwyd** | **Ymateb yr Awdurdod Lleol** | **Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** | **% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** |
|---|---|---|---|---|
| **Pryderon a Godwyd** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. | **<u>Yr ysgol yw calon y gymuned</u>**<br><br>Mae'r ymatebwyr yn nodi mai'r ysgol yw calon y gymuned ac y bydd cau'r ysgol yn cyflymu dirywiad gwledig ac yn cael effaith ar fusnesau lleol, y pentref a'r gymuned. | Mae gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gyfrifoldeb cyfreithiol am reoli'r defnydd o safle ysgol yn ystod oriau ysgol a'r tu allan i oriau ysgol, ac, wrth wneud hynny, rhaid iddo ystyried anghenion y gymuned leol yn unol â *Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008* a Rheoliadau Diwygio 2008 cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys gofyniad statudol i "*roi sylw i ba mor ddymunol fyddai trefnu bod y fangre honno ar gael at ddefnydd cymunedol*" wrth benderfynu ar fynediad y tu allan i oriau. Mae ysgolion yn cefnogi eu cymunedau yn rheolaidd drwy gynnal gwasanaethau estynedig fel gofal plant, dysgu oedolion, gweithgareddau ieuenctid a rhaglenni'r sector gwirfoddol, gan adlewyrchu eu rôl fel asedau cymunedol pwysig. Fodd bynnag, er bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ystyried a hwyluso defnydd cymunedol o safleoedd ysgol, nid oes unrhyw ofyniad statudol i ysgolion arwain, hyrwyddo neu ategu datblygiad cymunedol, nac i weithredu fel prif ysgogwyr gweithgarwch meithrin cymuned ehangach. Mae'r ddyletswydd gyfreithiol wedi'i chyfyngu i alluogi mynediad rhesymol i'r gymuned, nid darparu neu gyfarwyddo datblygiad cymunedol ei hun. Mae ysgolion yn cael eu hannog - ond nid yw'n | 125 | 62% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ofynnol yn ôl y gyfraith - i gyfoethogi dysgu drwy ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned. Nid yw'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i ysgolion yng Nghymru chwarae rôl ganolog wrth ysgogi cynaliadwyedd cymunedol.<br><br>Mae'n ofynnol i ysgolion weithredu'r Cwricwlwm i Gymru fel y nodir yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, gan gynnwys y pedwar diben, cydrannau cwricwlwm gorfodol, a'r disgwyliadau statudol o ran cynnydd ac asesu ar gyfer dysgwyr 3–16 oed. Rhaid iddynt hefyd fodloni ystod o ddyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â diogelu, presenoldeb, cynhwysiant a llywodraethu o dan ddeddfwriaeth addysg ehangach, megis Deddf Addysg 1996 a chanllawiau cysylltiedig Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys meysydd fel diogelwch dysgwyr, monitro presenoldeb yn gywir, diwallu anghenion dysgu ychwanegol, a sicrhau trefniadau llywodraethu sy'n cydymffurfio â'r gofynion. Yn bwysig ddigon, er bod y fframweithiau statudol hyn yn gosod rhwymedigaethau clir ar ysgolion mewn perthynas â chyflwyno'r cwricwlwm, lles dysgwyr ac atebolrwydd sefydliadol, nid ydynt | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | yn gosod unrhyw ofyniad i ysgolion gynnal neu arwain datblygiad cymunedol ehangach.<br><br>Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r awdurdod lleol wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i werthuso effeithiau tebygol y cynnig ar hunaniaeth leol, cydlyniant cymunedol, mynediad at gyfleusterau a llesiant ehangach. Er bod canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ysgolion Bro yn hyrwyddo bod ysgolion yn gweithredu fel canolfannau cymunedol ac yn annog cydweithio â theuluoedd a phartneriaid amlasiantaeth, nid yw'n statudol gwneud hynny ac nid yw'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion na'r awdurdod lleol i arwain neu ategu datblygiad cymunedol. Rhwymedigaeth statudol yr awdurdod lleol yw ystyried effeithiau ar y gymuned a dewisiadau hyfyw eraill yn gydwybodol, nid cadw sefydliad penodol heb ystyried ansawdd addysgol, cynaliadwyedd neu werth am arian.<br><br>O ran Ysgol Llansteffan, nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod Lleol wrth baratoi'r cynnig yn dangos bod safle'r ysgol yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned leol. Rydyn ni'n | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cydnabod bod yr ysgol ers hynny wedi dechrau darparu ar gyfer grŵp Cylch Ti a Fi.<br><br>Mae polisi cenedlaethol a lleol yn mynnu bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu mewn lleoliadau sy'n gynaliadwy, sy'n gallu cynnig cynnydd ieithyddol cryf, ac sy'n gallu bodloni disgwyliadau Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir. Gall darpariaeth gyfunol gefnogi staffio mwy diogel, profiadau cwricwlwm ehangach a mwy o gyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o amgylchiadau.<br><br>Nid yw gweithgarwch cymunedol a defnydd y Gymraeg yn dibynnu ar safle'r ysgol yn unig, a gall cyfleoedd barhau drwy grwpiau lleol, lleoliadau cymunedol, a gwaith partneriaeth.<br><br>Ar y cyfan, er bod rôl yr ysgol mewn bywyd cymunedol yn cael ei chydnabod, nod y fframwaith cynllunio addysgol ac ieithyddol ehangach yw sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg hirdymor a chyfleoedd parhaus ar gyfer defnydd y Gymraeg yn y gymuned, hyd yn oed os yw'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno o safle ysgol gwahanol. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2. | **<u>Capasiti a Maint Dosbarthiadau Ysgol Llangain</u>**<br><br>Nododd yr ymatebwyr anghysondebau o ran a oes capasiti priodol yn Ysgol Llangain i dderbyn yr holl ddisgyblion o Ysgol Llansteffan.<br><br>Nododd yr ymatebwyr hefyd fod gwrthddywediadau mewn egwyddorion addysg o ran bod disgyblion yn symud o ddosbarthiadau oedran cymysg yn Ysgol Llansteffan i ddosbarthiadau oedran cymysg yn Ysgol Llangain. Mae hyn yn gwrth-ddweud dyheadau'r Awdurdod Lleol o gael dim mwy na dau grŵp oedran fesul dosbarth. | Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Llangain ddigon o gapasiti i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Llansteffan yn ogystal â'r rhai sydd eisoes ar y gofrestr yn Ysgol Llangain ac nid oes angen adeiladau/ystafelloedd ychwanegol arni ar hyn o bryd.<br><br>Yn seiliedig ar y cyfrifiadau capasiti diwygiedig ac mwyaf diweddar, capasiti Ysgol Llangain ar gyfer y flwyddyn academaidd 26/27 yw 64 ac amcangyfrifir y bydd 41 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Medi 2026.<br><br>Rydym yn cydnabod bod gan Ysgol Llansteffan ac Ysgol Llangain yr un nifer o ystafelloedd dosbarth/darpariaeth o ran strwythur dosbarthiadau. Mae'r gwaith o fodelu strwythur dosbarthiadau Ysgol Llangain wedi'i gwblhau. Mae'n annhebygol y bydd angen newid strwythur presennol y dosbarthiadau neu'r staffio presennol gan fod modd darparu ar gyfer disgyblion Ysgol Llansteffan o fewn strwythur dosbarthiadau presennol Ysgol Llangain. | 95 | 47% |
| 3. | **<u>Effaith ar Deithio Llesol a Chludiant</u>**<br><br>Nododd yr ymatebwyr, er bod disgyblion yn cael y cyfle i gerdded i Ysgol Llansteffan ar hyn o bryd, na fyddai'r cyfle hwn ar gael bellach pe bai'r ysgol yn cau gan nad oes | Mae Ysgol Llansteffan tua 4.3 milltir o Ysgol Llangain. Mae 13 o blant yn cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ei bod yn debygol yr effeithir ar y trefniadau teithio i | 64 | 32% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | llwybrau diogel i'r ysgol ar gael rhwng Llansteffan a Llangain.<br><br>Hefyd nododd yr ymatebwyr yr effaith uniongyrchol ar gludiant, gan nodi bod cludiant yn angenrheidiol oherwydd nad oes llwybrau cerdded diogel i'r ysgol ar gael a'r pellter rhwng y pentrefi.<br><br>Nododd rhai ymatebwyr hefyd na fyddent yn hapus i anfon disgyblion iau i'r ysgol ar gludiant ysgol. | ddisgyblion, ond darperir cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys yn unol â pholisi cludiant Cyngor Sir Caerfyrddin. Gallai'r cynnig effeithio ar rieni sydd â phlant nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim ac efallai'n gorfod teithio ymhellach.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw lwybrau Teithio Llesol dynodedig yn cysylltu Llansteffan a Llangain sy'n bodloni gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r priffyrdd rhwng y ddwy gymuned yn cynnwys lonydd gwledig cul heb balmentydd neu fawr ddim palmentydd, gwelededd cyfyngedig, a cherbydau yn teithio ar gyflymder na fyddai'n cael ei ystyried yn ddiogel i ddisgyblion ar eu pennau eu hunain neu rai ifanc. Mae'r nodweddion hyn yn gwneud y llwybr yn anaddas ar gyfer cerdded neu feicio, yn enwedig ar gyfer plant oedran cynradd.<br><br>Er nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddatblygu cysylltiadau Teithio Llesol newydd rhwng y ddau bentref, mae'r coridor wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor, sy'n ymestyn o Lansteffan i Gaerfyrddin drwy Langain (cyfeirnod CN5). Mae cynnwys y coridor yn y Map yn adlewyrchu cynllunio uchelgeisiol hirdymor ond | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | nid yw'n dangos bod cyllid wedi'i ymrwymo na sicrwydd y bydd yn cael ei gyflawni.<br>O dan y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru), mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol fapio a datblygu llwybrau teithio llesol ar draws y sir gyda phwyslais penodol ar Ardaloedd Adeiledig, lle mae buddsoddiad fel arfer yn sicrhau mwy o fudd o ran mynediad at wasanaethau, niferoedd defnyddwyr, a'r potensial i ddylanwadu ar newid dulliau teithio. O ganlyniad, mae sicrhau cyllid ar gyfer dichonoldeb neu adeiladu cynlluniau gwledig fel hyn yn arbennig o heriol. Os oes cefnogaeth yn lleol i'r llwybr hwn gael ei ddatblygu, gall trigolion gyflwyno sylwadau drwy blatfform ymgynghori Teithio Llesol ar-lein y Cyngor. Bydd ymgynghoriad ynghylch y Map yn cael ei gynnal ar draws y sir yn haf 2026, cyn y dyddiad cau statudol nesaf ar gyfer cyflwyno ym mis Rhagfyr 2026.<br><br>Byddai unrhyw lwybr Teithio Llesol posibl rhwng Llansteffan a Llangain yn golygu bod angen gwaith seilwaith sylweddol, gan gynnwys caffael tir, lledu ffyrdd, a gwaith peirianneg sylweddol. Oherwydd topograffi presennol, aliniad ffyrdd, a chyfyngiadau amgylcheddol, byddai darparu llwybr sy'n | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cydymffurfio â'r gofynion yn gymhleth, yn gostus, ac yn annhebygol o gael ei gyflawni o fewn amserlenni rhesymol.<br><br>O ystyried y cyfyngiadau hyn, mae'r awdurdod lleol o'r farn nad yw Teithio Llesol yn opsiwn hyfyw ar gyfer y daith ysgol rhwng Llansteffan a Llangain. Ni fyddai'r disgyblion sy'n cerdded neu'n mynd ar sgwter i'r ysgol yn Llansteffan ar hyn o bryd yn gallu gwneud y daith hon yn ddiogel o dan y trefniant arfaethedig. O ganlyniad, byddai angen mynediad at gludiant ysgol pwrpasol ar ddisgyblion cymwys, yn unol â pholisi'r awdurdod ynghylch teithio gan ddysgwyr. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried man casglu dynodedig yn Llansteffan sy'n caniatáu i ddisgyblion cymwys sy'n cerdded neu'n mynd ar sgwter i'r ysgol ar hyn o bryd barhau i wneud hynny os oes angen.<br><br>Mae disgyblion iau ledled Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys disgyblion ag ADY nad ydynt o oedran ysgol gorfodol, yn cael eu cludo fel mater o drefn i leoliadau arbenigol mewn bws mini neu dacsi heb effaith negyddol ar lesiant.<br><br>Mae disgyblion yn y sir eisoes yn cael cludiant ysgol i gael mynediad at ddarpariaeth drochi, | | |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>fel y Ganolfan Iaith yn Ysgol Maes y Gwendraeth.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>4.</td><td><u>Tai Newydd</u><br><br>Nododd yr ymatebwyr fod ystadau tai newydd yn cael eu hadeiladu yn yr ardaloedd lleol a allai effeithio ar nifer y disgyblion a'r capasiti yn Ysgol Llansteffan ac Ysgol Llangain. Nid oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y wybodaeth hon wedi'i chyfleu'n ddigonol yn y papur cynnig.</td><td>Mae effaith datblygiadau tai newydd wedi'i hasesu.<br><br>Ar gyfer teuluoedd â phlant sydd wedi symud i dai newydd:<br>12 o oedran ysgol gynradd 3-11 oed<br>1 o oedran ysgol uwchradd<br>4 o dan 3 oed.<br><br>Dim ond tri sydd wedi gwneud cais ac mae pob un eisoes ar y gofrestr yn Ysgol Llangain.<br><br>Mae'r tabl isod yn dangos manylion pe bai'r lleill yn gwneud cais am le yn Ysgol Llangain:<br><br>
<table>
<tr><th>Grŵp Blwyddyn</th><th>Disgyblion tai newydd</th><th>Niferoedd ar y gofrestr</th><th>Lleoedd yn seiliedig ar ND 26/27</th></tr>
<tr><td>Blwyddyn 5</td><td>2</td><td>2</td><td>Lleoedd</td></tr>
<tr><td>Blwyddyn 4</td><td>1</td><td>6</td><td>Lleoedd</td></tr>
<tr><td>Blwyddyn 3</td><td>3</td><td>5</td><td>Lleoedd</td></tr>
</table></td><td>106</td><td>53%</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td><table>
<tr><td>Blwyddyn 2</td><td>1 (eisoes wedi dechrau)</td><td>9</td><td>Lleoedd</td></tr>
<tr><td>Blwyddyn 1</td><td>3 (mae 1 wedi dechrau)</td><td>10</td><td>Dros y Nifer Derbyn</td></tr>
<tr><td>M2</td><td>1</td><td>4</td><td>Lleoedd</td></tr>
</table>
<br>
Mae'r Cyfrifiadau Capasiti Diweddaraf (26/27) yn dangos bod lle i 64 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae 45 o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol wedi'u rhannu'n ddau ddosbarth - 25 o blant mewn un dosbarth ac 20 o blant yn y llall - a disgwylir i'r niferoedd ostwng ym mis Medi 2026 oherwydd y garfan blwyddyn 6 fawr. Felly, o safbwynt derbyn, nid ydym yn credu bod unrhyw anfantais fel y'i diffinnir gan y Cod Derbyn yn sgil derbyn rhagor o ddisgyblion i'r ysgol, hyd yn oed i'r grwpiau blwyddyn llawn.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>5.</td><td><u>Effaith ar y Gymraeg</u><br><br>Nododd yr ymatebwyr yr effaith uniongyrchol ar y Gymraeg pe bai'r ysgol yn cau. Mae’r ymatebwyr yn disgwyl y bydd colli’r ysgol yn peryglu dyfodol y Gymraeg yn yr ardal leol, gan fod y Gymraeg yn ffynnu yn yr ysgol. Nodir bod yr ysgol yn ganolfan ganolog i'r Gymraeg yn y gymuned.</td><td>Mae'r ysgol yn cyfrannu at ddefnyddio'r Gymraeg yn y pentref bob dydd, ond mae cynaliadwyedd Cymraeg hirdymor ar gyfer ardal Llansteffan yn cael ei sicrhau drwy fframwaith strategol a statudol ehangach yn hytrach na phresenoldeb un safle. Mae nodau strategol Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022–2032 yn sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg</td><td>60</td><td>30%</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae hyn yn groes i nodau lleol a chenedlaethol wrth hyrwyddo datblygu'r Gymraeg. | yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn hygyrch yn lleol, gyda ffocws clir ar gynnal cyfleoedd cryf i ddysgu Cymraeg yn Ysgol Llangain, sy'n gallu darparu ar gyfer disgyblion o Lansteffan heb leihau'r pwyslais ar ddatblygu'r Gymraeg. Mae'r dull hwn o weithredu yn cefnogi parhad sgiliau Cymraeg drwy ddarpariaeth strwythuredig ac ymgysylltu'n barhaus â theuluoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.<br><br>Mae polisi cenedlaethol yn rhoi pwyslais ychwanegol ar wytnwch ieithyddol hirdymor. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i bob corff cyhoeddus gyfrannu at "*Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu"* a chynllunio ar gyfer llesiant ieithyddol, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor. Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn cryfhau hyn ymhellach drwy sefydlu categorïau iaith ysgol statudol a nodau dysgu Cymraeg sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob disgybl yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, drwy gynllunio cydlynol ar lefel genedlaethol, leol ac ysgol.<br><br>O dan y Cwricwlwm i Gymru, mae'r cyfrifoldeb am ddatblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr wedi'i sefydlu ar draws dysgu, addysgu ac ymgysylltu | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | â'r gymuned yn hytrach na bod yn gysylltiedig ag un adeilad ysgol. Disgwylir i sgiliau Cymraeg fod yn drosglwyddadwy, yn gynaliadwy a chael eu defnyddio'n naturiol mewn bywyd bob dydd, sy'n golygu nad yw cynnydd ieithyddol yn dibynnu ar union leoliad daearyddol ysgol.<br><br>Mae mewnwelediadau cenedlaethol a gwaith thematig Estyn ar gaffael y Gymraeg yn cadarnhau mai prif sbardunau deilliannau cryf o ran y Gymraeg yw addysgu o ansawdd uchel, cynllunio effeithiol, ymarfer trochi, asesu ac arweinyddiaeth ysgolion, yn hytrach na phresenoldeb ysgol mewn cymuned. Mae tystiolaeth yn dangos bod addysgeg hyderus, diwylliant iaith cadarnhaol ac arweinyddiaeth gref yn cael yr effaith fwyaf ar allu dysgwyr i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, ac ar y tebygolrwydd y byddant yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd.<br><br>Gall gweithgarwch Cymraeg yn Llansteffan barhau drwy rwydweithiau, grwpiau a lleoliadau cymunedol presennol, hyd yn oed os yw'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno o safle arall. Mae'r cyfeiriad polisi ehangach, Cymraeg 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2025, a'r Cwricwlwm i Gymru, yn blaenoriaethu gwytnwch ieithyddol hirdymor, darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynaliadwy, a sicrhau bod dysgwyr yn gallu cymryd rhan yn hyderus mewn cymunedau Cymraeg ble bynnag y maent yn byw.<br><br>Gan fod Ysgol Llangain yn ysgol 3-11 oed, bydd cyfle i ddisgyblion gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o oedran iau. | | |
| 6. | **Dysgu yn yr Awyr Agored a Chyfleusterau Ysgol**<br><br>Nododd yr ymatebwyr ehangder y cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored sydd ar gael yn Llansteffan fel y traeth, y goedwig a'r castell, sef cyfleusterau nad ydynt ar gael yn rhwydd mewn cymunedau lleol eraill ac sy'n gwneud Ysgol Llansteffan yn amgylchedd dysgu unigryw.<br><br>Nododd yr ymatebwyr hefyd fod ysgolion eraill yn y ffederasiwn yn defnyddio cyfleusterau fel neuadd yr ysgol, gan nad yw'r rhain ar gael/yn briodol yn yr ysgolion eraill. Ni fyddai'r cyfleusterau hyn bellach ar gael i'w defnyddio pe bai'r ysgol yn cau, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar ysgolion eraill yn y ffederasiwn. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch llesiant disgyblion, cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, a'r amgylchedd unigryw sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Llansteffan. Mae cefnogi datblygiad cyfannol disgyblion yn parhau i fod yn ganolog i weledigaeth yr Awdurdod Lleol ac wedi'i sefydlu yn y Cwricwlwm i Gymru, sy'n rhoi llesiant, cynnydd ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth wraidd y ddarpariaeth addysgol.<br><br>Er bod Llansteffan yn cynnig mynediad uniongyrchol i draethau a choetir, mae'n bwysig pwysleisio bod dysgu yn yr awyr agored yn ddull addysgegol, nid yn lleoliad sefydlog. Gellir cyflwyno'r egwyddorion sy'n sail i ddysgu yn yr awyr agored - dysgu drwy brofiad, seiliedig ar ymholiad, a phrofiadau sy'n llawn chwarae - yn effeithiol mewn amrywiaeth eang o amgylcheddau. Mae Ysgol Llangain | 82 | 41% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | wedi sefydlu ymarfer yn y maes hwn ac mae mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu profiadau dysgu yn yr awyr agored o safon i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o Lansteffan.<br><br>Mae gan Ysgol Llangain:<br>• Ymarferydd hyfforddedig ysgolion awyr agored Sir Gaerfyrddin sy'n cyflwyno sesiynau dysgu strwythuredig, cynyddol yn yr awyr agored sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cefnogi datblygiad corfforol, gwybyddol ac emosiynol disgyblion.<br>• Mae staff wedi derbyn dysgu proffesiynol o ran Ymwybyddiaeth Ystyriol o Drawma a Meithrin Perthnasoedd Cadarnhaol. Mae staff y ffederasiwn wedi'u hyfforddi i adnabod disgyblion sy'n wynebu heriau emosiynol neu ymddygiadol ac ymateb iddynt a'u cefnogi. Mae hyn yn cefnogi pontio'n sensitif drwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar y disgybl.<br>• Ar draws y ffederasiynau, mae diwylliant cyson sy'n rhoi llesiant dysgwyr wrth wraidd ei ddyluniad cwricwlwm, yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ynghylch unigolion iach, hyderus.<br>• Bydd cynllunio cwricwlwm effeithiol yn sicrhau y gall mynediad at gyfleusterau cymunedol ehangach barhau i gyfoethogi profiadau dysgu. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Profiad o ddarparu cymorth bugeiliol ysgol fach, meithrin perthnasoedd diogel, a chyfathrebu cryf â theuluoedd.<br><br>Mae tystiolaeth arolygu ledled Cymru yn dangos nad yw darpariaeth llesiant o ansawdd uchel yn dibynnu ar leoliad ffisegol penodol ond ar ymarferwyr medrus, perthnasoedd cyson, a dyluniad cwricwlwm pwrpasol. Mae Ysgol Llangain eisoes yn dangos cryfderau yn y meysydd hyn, gan sicrhau y bydd disgyblion Ysgol Llansteffan yn parhau i gael mynediad at brofiadau dysgu cyfoethog a chymorth emosiynol diogel.<br><br>Yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r Awdurdod Lleol yn hyderus y gall Ysgol Llangain gynnal, hyrwyddo a gwella llesiant disgyblion, yn ogystal â sicrhau parhad mewn dysgu yn yr awyr agored, cyfleoedd ar gyfer dysgu creadigol a dysgu drwy brofiad, a staff sy'n gallu cefnogi disgyblion yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio.<br><br>Bydd modd parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored sy'n cefnogi defnydd naturiol o'r Gymraeg drwy amgylcheddau lleol eraill a phrofiadau wedi'u cynllunio yn Ysgol Llangain. | | |
| 7. | **Hen Ddata a Chynnydd yn Nifer y Disgyblion** | Mae data CYBLD yn darparu set ddata gyson, gynhwysfawr a safonedig ar draws pob ysgol yng Nghymru. Mae CYBLD yn cael ei gasglu'n | 102 | 51% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Nododd yr ymatebwyr fod hen ddata wedi cael ei ddefnyddio wrth baratoi'r papur cynnig ac nad oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol. | flynyddol o bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan sicrhau cipolwg unffurf a chyfredol o niferoedd disgyblion, demograffeg a nodweddion ysgolion. Mae'r cysondeb hwn yn golygu bod modd dadansoddi tueddiadau a gwneud cymariaethau cywir ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn defnyddio data CYBLD fel llinell sylfaen ar gyfer dyrannu cyllid, monitro perfformiad, a chynllunio strategol. Bydd deiliad y swydd hon yn gyfrifol am reoli cynllunio, cydlynu a chyflawni'n effeithiol waith trydanol a mecanyddol cynlluniedig sy'n fwy o faint, yn gymhleth, ac sy'n gofyn am ddeunyddiau arbenigol, neu gydlynu â sawl contractwr a darpariaethau mewnol ac nad ydynt yn peri risg i iechyd, diogelwch, neu gadernid strwythurol a diogelwch yr eiddo. Mae defnyddio'r un set ddata mewn adroddiadau awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â fframweithiau polisi cenedlaethol ac yn osgoi anghysondebau. Mae CYBLD yn ffynhonnell ddata swyddogol sy'n destun prosesau dilysu trylwyr. Mae defnyddio CYBLD mewn adroddiadau ffurfiol yn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd, yn enwedig wrth gyfiawnhau penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion, cyllid, neu ddeilliannau addysgol. Mae cyfeirio at un ffynhonnell ddata gydnabyddedig, fel CYBLD, yn creu eglurder ac yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid, ysgolion, rhieni, arolygwyr a llunwyr polisi yn gweithio o'r | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | un sylfaen dystiolaeth. Cafodd y penderfyniad i ddilyn y broses symlach ei wneud ar y sail hon.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod nifer y disgyblion wedi cynyddu ers CYBLD 2025 a pharatoi'r papur cynnig. Ar 20 Ionawr 2026, ar hyn o bryd mae 16 o ddisgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Llansteffan. Fodd bynnag, er bod cynnydd wedi bod yn nifer y disgyblion, mae'r niferoedd hyn yn parhau i fod yn isel iawn a byddant yn parhau i effeithio ar gynaliadwyedd hirdymor yr ysgol. | | |
| 8. | **Effaith ar yr Amgylchedd**<br><br>Nododd yr ymatebwyr yr effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd o ganlyniad i'r gofynion cludiant cynyddol wrth gludo disgyblion i Ysgol Llangain gan na fyddent yn gallu cerdded i'r ysgol. Mae hyn yn groes i bolisi Carbon Sero Net yr Awdurdod Lleol. | Cynhyrchodd Ysgol Llansteffan, a adeiladwyd ym 1953 ac sy'n cael ei gwresogi gan system olew, 15.20 tunnell o allyriadau $CO^2$ yn 2024/25. Yn yr un modd, cynhyrchodd Ysgol Gynradd Llangain, a adeiladwyd ym 1976 ac sy'n cael ei gwresogi gan LPG, 10.34 tunnell o allyriadau $CO^2$ yn 2024/25. Mae'r ffigurau hyn yn dangos baich allyriadau uchel adeiladau hŷn, nad ydynt yn effeithlon yn thermol, yn enwedig pan fyddant yn gweithredu gyda niferoedd isel o ddisgyblion.<br><br>Arwynebedd llawr Ysgol Llansteffan yw 514 m² ac mae ganddi 16 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gweithredu adeilad o'r maint hwn gyda niferoedd mor isel o ddisgyblion yn arwain at ddefnydd ynni anghymesur uchel fesul disgybl, yn enwedig ar gyfer gwresogi, | 26 | 13% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | goleuadau, a gwasanaethau adeiladau cyffredinol.<br><br>Mae tystiolaeth o ganllawiau ynni Llywodraeth Cymru yn dangos bod adeiladau ysgolion yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau carbon y sector cyhoeddus, ac mae gwella effeithlonrwydd adeiladau neu leihau gwastraff ynni yn flaenoriaeth amgylcheddol allweddol. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi bod defnydd ynni adeiladau, yn enwedig ar gyfer gwresogi, yn un o'r prif ffynonellau allyriadau yn y sector addysg.<br><br>Yn yr un modd, mae canllawiau ehangach y DU ar ddefnydd ynni ysgolion yn pwysleisio bod gwresogi a goleuadau yn gyfrifol am ddefnydd ynni sylweddol sydd yn aml yn anochel, waeth beth fo nifer gwirioneddol y disgyblion. Felly, mae adeiladau ysgol nad ydynt yn llawn yn gweithredu'n aneffeithlon iawn fesul pen.<br><br>Bydd cau ysgol 514m² sydd heb fod yn llawn yn lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau'n sylweddol, gan gyd-fynd â nodau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, sy'n blaenoriaethu lleihau allyriadau o ystadau'r | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sector cyhoeddus drwy wella effeithlonrwydd ynni a lleihau'r defnydd diangen o ynni.<br><br>Mae'r effeithiau ar gludiant yn parhau i fod yn gymharol fach: byddai bws mini a rennir sy'n gwneud taith unffordd 5 milltir arferol bob diwrnod ysgol am 190 diwrnod addysgu yn allyrru oddeutu 1.43 tunnell o allyriadau $CO^2$ y flwyddyn, yn seiliedig ar ffactorau sy'n deillio o DEFRA (~7.5 kg o allyriadau $CO^2$ fesul taith). Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys unrhyw allyriadau o daith y bws mini i gyrraedd y man casglu ond mae'n parhau i fod yn sylweddol is na'r allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau sy'n cael eu hosgoi.<br><br>Mae'r cynnig yn cynnwys darparu cludiant pwrpasol i ddisgyblion cymwys a fydd yn trosglwyddo i Ysgol Llangain. Mae taith 5 milltir arferol yn bellter byr, ac mae rhannu cludiant (e.e., bws mini neu goets bach) yn lleihau allyriadau fesul disgybl yn sylweddol o gymharu â defnyddio car preifat.<br><br>Mae canllawiau polisi amgylcheddol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cydnabod, er bod cludiant yn cyfrannu at allyriadau, mai defnydd ynni adeiladau yw'r maes lle mae'r effaith fwyaf ar yr amgylchedd o hyd, i'r rhan | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | fwyaf o sefydliadau, gan gynnwys darparwyr addysg.<br><br>Yn ymarferol, mae allyriadau dyddiol un cerbyd a rennir sy'n gwneud taith fer yn sylweddol is na'r allyriadau sy'n gysylltiedig â gwresogi a chynnal a chadw adeilad ysgol mawr, nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol. Felly mae'r cynnydd bach mewn allyriadau cludiant yn cael ei wrthbwyso a mwy gan y gostyngiad sylweddol mewn allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau yn sgil cau'r ysgol.<br><br>Mae datganiad Cyngor Sir Caerfyrddin o Argyfwng Hinsawdd ar 20 Chwefror 2019 yn pwysleisio'r angen i leihau allyriadau y gellir eu hosgoi ar draws ystad y sector cyhoeddus, gan gynnwys adeiladau ysgolion.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd cenedlaethol ac wedi gosod uchelgeisiau i adeiladau'r sector cyhoeddus symud tuag at allyriadau sero net. Mae lleihau gwastraff ynni a gwella cynaliadwyedd ar draws yr ystad ysgolion yn cefnogi'r ymrwymiadau polisi cenedlaethol hyn yn uniongyrchol.<br><br>Bydd cau Ysgol Llansteffan yn lleihau allyriadau carbon cyffredinol, yn cefnogi | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | amcanion datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, ac yn darparu model hirdymor mwy cynaliadwy ar gyfer darparu addysg yn yr ardal. | | |
| 9. | **Proses / Asesiadau Effaith**<br><br>Mynegodd yr ymatebwyr bryderon ynghylch y broses sydd wedi'i dilyn hyd at a chan gynnwys cyhoeddi'r hysbysiad statudol, megis:<br>• Dim amser i fynd ar drywydd opsiynau amgen ar ôl y drafodaeth lunio<br>• Ni roddwyd unrhyw adborth yn dilyn y trafodaethau llunio cyn cyflwyno'r papur cynnig i'r Cabinet<br>• Diffyg cyfnod ymgynghori<br><br>Mynegodd yr ymatebwyr bryderon hefyd ynglŷn â'r asesiadau effaith a gynhaliwyd sef: Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, Asesiad o'r Iaith Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gludiant a chodwyd y pwyntiau canlynol:<br>• Cam yr asesiadau effaith<br>• Dilysrwydd yr asesiadau effaith<br>• Ansawdd yr asesiadau effaith<br>• Tegwch yr asesiadau rhwng yr ysgol dan fygythiad o gau a'r ysgol sy'n derbyn | Mae'n bwysig nodi nad yw'r drafodaeth lunio / Cam 0 yn ofynnol fel rhan o broses ffurfiol y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae hyn wedi'i fabwysiadu gan yr Awdurdod Lleol fel cam ychwanegol i'w broses ddemocrataidd ei hun i ganiatáu trafodaeth gynnar a rhannu gwybodaeth allweddol er mwyn gallu llunio cynigion. Cafodd argymhellion gan yr ysgol a ddeilliodd o'r trafodaethau llunio eu cynnwys yn y papur cynnig ac maent wedi'u hystyried. Yn ogystal, ystyriwyd opsiynau amgen pellach a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol yn yr adroddiad hwn.<br><br>Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu ddim disgyblion o gwbl) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gorff llywodraethu/awdurdod lleol ddilyn proses symlach o ran cau'r ysgol.<br><br>Yr unig beth y mae'n ofynnol ei wneud o dan y broses symlach honno yw cyhoeddi hysbysiad cau, heb ymgynghori'n gyffredinol, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol a fyddai'n rhesymol hygyrch i unrhyw ddisgyblion sydd wedi'u dadleoli. Pan gynhaliwyd cyfrifiad | 34 | 17% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ionawr 2025, roedd 8 disgybl cofrestredig yn yr ysgol ac felly penderfynodd yr Awdurdod Lleol gychwyn proses symlach, o ystyried bod digon o leoedd ar gael yn Ysgol Llangain. Er bod yr Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod y newid yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol, mae nifer y disgyblion yn Ysgol Llansteffan yn dal i fod yn isel iawn ac mae digon o gapasiti yn Ysgol Llangain o hyd.<br><br>Er bod yr Awdurdod Lleol yn nodi'r siom ynghylch y diffyg cyfnod ymgynghori, mae'r cyfnod hysbysiad statudol yn dal i roi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau naill ai'n gwrthwynebu neu'n cefnogi'r cynnig. Mae'r adborth hwn wedi'i ddadansoddi'n gynhwysfawr a bydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor Sir llawn cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig.<br><br>Mae'r adran yn nodi'r sylwadau a wnaed ar y diffyg adborth a ddarparwyd ac eglurder ynghylch y broses. Mae'r adran yn defnyddio dull parhaus o ran gwersi a ddysgwyd ac mae wedi ymrwymo i fireinio a chryfhau ei gweithdrefnau. Bydd unrhyw adborth a ddarparwyd yn cael ei ystyried yn ofalus a, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei ddefnyddio i wella prosesau yn y dyfodol.<br><br>Fel rhan o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | asesiadau effaith perthnasol fel y Gymraeg, y Gymuned, Cludiant a Chydraddoldeb. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn mabwysiadu Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys elfennau fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, y Gymraeg, Economaidd-Gymdeithasol, Hawliau'r Plentyn a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), yn unol â nifer o ofynion deddfwriaethol. Mae'r asesiad effaith integredig yn dempled i'w gwblhau a'i adolygu fel rhan o'r broses datblygu cynigion a dylid ei fireinio a'i ddiweddaru drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig wrth i ragor o dystiolaeth a gwybodaeth gael eu casglu. Paratowyd yr Asesiad Effaith Integredig cychwynnol ar ddechrau'r broses ac mae wedi'i ddiweddaru yn unol â data newydd, tystiolaeth ac adborth a ddarparwyd fel rhan o'r cyfnod hysbysiad statudol.<br><br>Mae'r holl waith dadansoddi yn cael ei gynnal gan ein hymgynghorwyr proffesiynol, ac mae barn yn cael ei llunio yn seiliedig ar eu harbenigedd. Rydym o'r farn bod ein holl asesiadau effaith yn deg ac yn gytbwys (ar sail y wybodaeth oedd ar gael ar adeg cyhoeddi a cham y broses.)<br><br>O ran yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, mae'r gwerthusiad yn ystyried cryfderau o ran y Gymraeg yn y ddwy ysgol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, deilliannau iaith, | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cynaliadwyedd, a'r gallu i gyflawni amcanion addysgol cyfrwng Cymraeg hirdymor. Mae hefyd yn edrych ar gyfleoedd trochi o ran diwylliant a threftadaeth sydd ar gael ym mhob lleoliad, gan alluogi cymhariaeth gytbwys rhwng Ysgol Llansteffan ac Ysgol Llangain.<br><br>Mae'r fethodoleg asesu yn blaenoriaethu ansawdd a pharhad addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth, gan adlewyrchu tystiolaeth mai darpariaeth strwythuredig, addysgeg gref a chynnydd ieithyddol cyson yw'r sbardunau mwyaf effeithiol o ran caffael y Gymraeg. Er bod gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd yn y lleoliad yn cael eu cydnabod, mae'r asesiad yn canolbwyntio ar ofynion ieithyddol statudol, cyflwyno'r cwricwlwm a'r llwybrau cynnydd sy'n sicrhau bod dysgwyr yn dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.<br><br>O ran sylwadau am annhegwch canfyddedig rhwng y ddwy ysgol, mae pob cymhariaeth yn seiliedig dim ond ar wybodaeth ffeithiol a gedwir gan yr Awdurdod neu a ddarperir yn uniongyrchol gan yr ysgolion ynghylch eu cyfleusterau, eu darpariaeth a'u cyfleoedd o ran y Gymraeg. Felly, mae'r asesiad yn defnyddio dull cyson, seiliedig ar dystiolaeth ar draws y ddau leoliad. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 10. | **Arbedion**<br><br>Nododd yr ymatebwyr y byddai'r arbedion disgwyliedig yn sgil cau'r ysgol yn gymharol isel wrth ystyried y costau cludiant disgwyliedig. Nodwyd nad yw hyn yn ymddangos yn gymesur ag effaith colli ased gwerthfawr ar y gymuned. | Mae'r gyllideb gyffredinol a ddirprwywyd i ysgolion yr Awdurdod o dan bwysau sylweddol. Mae cyfuniad o setliadau cyllideb mwyfwy heriol yn genedlaethol ac yn lleol a lleihad graddol yn nifer y disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod yr ôl troed presennol, sef 94 o ysgolion cynradd, y mae gan rai ohonynt niferoedd bach iawn o ddisgyblion, yn anghynaladwy. Mae gan nifer fawr o ysgolion yr Awdurdod naill ai ddiffyg neu rhagwelir y bydd ganddynt ddiffyg yn ystod y ddwy flynedd nesaf ac mae'r gyllideb ysgolion gyffredinol yn rhagweld diffyg o £9.2m ym mis Mawrth 2026. Mae nifer sylweddol o leoedd gwag mewn ysgolion ar draws y rhwydwaith cyfan. Gan fod cyllid ysgolion yn cael ei reoli i raddau helaeth gan niferoedd disgyblion, mae lleihau'r ôl troed i lefel lle mae nifer llai o ysgolion yn gallu rheoli eu cyllidebau yn effeithlon bellach yn flaenoriaeth gorfforaethol. Mae hyn wedi'i gymeradwyo gan sawl corff allanol:<br><br>• Mae Estyn (2023) wedi nodi bod oedi wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys yn dilyn ymgyngoriadau ffurfiol, wedi golygu nad yw'r awdurdod wedi mynd i'r afael â'i | 19 | 9.5% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gynlluniau i ad-drefnu a moderneiddio addysg yn llawn.<br>• Nododd Adolygiad gan Gymheiriaid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2025) y dylai'r awdurdod weithredu'r "Rhaglen Moderneiddio Addysg" i fynd i'r afael â materion capasiti gormodol a gwneud y defnydd gorau posibl o ôl troed cyffredinol yr ystad ysgolion. Dylai'r rhaglen hon lywio buddsoddiad y rhaglen gyfalaf a phenderfyniadau ar y "rhaglen cymunedau dysgu cynaliadwy." Nododd hefyd fod yn rhaid i'r awdurdod gymryd camau i fynd i'r afael â nifer y diffygion mewn cyllidebau ysgolion. (Adolygiad gan gymheiriaid 2025)<br><br>Byddai'r arbedion refeniw blynyddol a ragwelir sy'n gysylltiedig â'r cynnig i gau Ysgol Llansteffan oddeutu £112,399, a fyddai'n cynnwys:<br>**Ardrethi Annomestig (Trethi):** £2,215**;**<br>**Tâl Atodol Safle:** £24,184;<br>**Tâl Atodol Nifer y Disgyblion:** £74,000;<br>**Tâl Atodol Ffederasiwn:** £12,000.<br><br>Yn ogystal, mae arbedion eraill i'r Cyngor yn sgil y gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog a ddarperir i ysgol fel | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol, Addysg a Chymorth ADY, TG, Gwasanaeth Cerdd, glanhau, cynnal a chadw tiroedd ac arlwyo. Mae arbedion hefyd i'w gwneud o ran gwaith cynnal a chadw eiddo parhaus ar gyfer hen adeiladau yn yr ystad ysgolion, gan gynnwys Ysgol Llansteffan.<br><br>Fodd bynnag, os caiff y cynnig i gau'r ysgol ei gymeradwyo, gallai arwain at drosglwyddo £35,958 (yn seiliedig ar 8 disgybl) i Ysgol Llangain neu unrhyw ysgol arall y mae rhieni yn dymuno anfon eu plant iddi, fel cyllid fesul disgybl. Mae'r achos ariannol yn parhau i fod yn ddilys hyd yn oed os bydd angen buddsoddiad pellach yn Ysgol Llangain yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd y bydd cyfuno disgyblion yn Ysgol Llangain yn cryfhau ei sefyllfa ariannol, a sefyllfa'r ffederasiwn drwy gynyddu maint ei garfan, sydd yn ei dro yn cynyddu'r cyllid sy'n gysylltiedig â niferoedd disgyblion. Mae'r dull hwn yn sicrhau gwell cynaliadwyedd hirdymor.<br><br>Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, a phe chytunid iddynt gael eu rhoi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Os nad oes diddordeb corfforaethol neu gymunedol mewn cadw'r adeilad yn unol â'r polisi ‘Defnyddio yn y | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid', yna byddai'r adeiladau'n cael eu gosod ar y farchnad agored a gallent greu derbyniad cyfalaf amcangyfrifedig o oddeutu £250,000. | | |
| 11. | **Anghenion Dysgu Ychwanegol**<br><br>Nododd yr ymatebwyr bod modd darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion ADY yn well yn Ysgol Llansteffan oherwydd ei bod yn ysgol lai lle mae'r athrawon yn deall anghenion y disgyblion. | Addysgu o ansawdd uchel yw'r ffactor mwyaf hanfodol o hyd o ran gwella deilliannau, yn enwedig i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae adolygiadau thematig Estyn yn pwysleisio bod darpariaeth ADY effeithiol yn seiliedig ar addysgu cynhwysol, wedi'i gynllunio'n dda, sy'n addasu i anghenion unigol, gyda chefnogaeth systemau ysgol gyfan cyson. Lle mae arweinyddiaeth ac addysgu yn cyd-fynd yn effeithiol, mae dysgwyr ag ADY yn gwneud cynnydd priodol waeth beth yw maint yr ysgol.<br><br>Bydd disgyblion ag ADY yn Ysgol Llansteffan yn gallu cael yr un ddarpariaeth gynhwysol yn Ysgol Llangain o ran prosesau, nodi anghenion ADY, adnoddau, strategaethau a dulliau. Mae hyn oherwydd bod staff yn gweithio ar draws y ffederasiwn ac yn gallu meithrin perthynas gadarnhaol â phob disgybl.<br><br>Byddai trefniadau pontio estynedig i Ysgol Llangain yn cynnwys cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a Phroffiliau Un Dudalen i sicrhau bod cryfderau ac anghenion unigol a strategaethau cymorth a ffefrir yn llywio cynlluniau pontio. Mae hyn yn galluogi | 25% | 12% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | dull pontio hwylus, sensitif sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio i bob disgybl.<br><br>Mae ymyriadau llesiant yn y ffederasiwn eisoes wedi'u teilwra i ddisgyblion unigol, gan sicrhau bod anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol yn cael eu cydnabod a'u hystyried yn gyson.<br><br>Cafodd Ysgol Llangain ei harolygu gan ESTYN ym mis Mehefin 2024 a nodwyd y canlynol o ran darpariaeth ADY yr ysgol: 'Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau eraill er mwyn cefnogi disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion penodol. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn gadarn ac maent yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyflawniadau blaenorol'.<br><br>Mae staff wedi derbyn dysgu proffesiynol o ran Ymwybyddiaeth Ystyriol o Drawma a Meithrin Perthnasoedd Cadarnhaol. Mae staff y ffederasiwn wedi'u hyfforddi i adnabod disgyblion sy'n wynebu heriau emosiynol neu ymddygiadol ac ymateb iddynt a'u cefnogi. Mae hyn yn cefnogi pontio'n sensitif drwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar y disgybl. Mae'r ffederasiwn yn gwneud defnydd effeithiol o swyddogion cymorth arbenigol yr Awdurdod Lleol, er enghraifft y Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Phlant, ac ADY i sicrhau bod cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y disgybl yn cael eu datblygu a'u gweithredu.<br><br>Mewn penderfyniad Tribiwnlys AAA dyddiedig 1 Ebrill 2021, nododd y Panel nad maint y dosbarth sy'n pennu natur addysgu, dysgu a darpariaeth. Mae ymarfer cynhwysol yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys addysgu a dysgu o ansawdd uchel gan gynnwys gwahaniaethu, ymyriadau a strategaethau i sicrhau bod disgyblion yn gallu gwneud cynnydd yn y cwricwlwm. Nid yw maint y dosbarthiadau yn berthnasol i ddulliau cynhwysol a deilliannau effeithiol i ddisgyblion. | | |
| 12. | **<u>Llesiant Disgyblion</u>**<br><br>Nododd yr ymatebwyr effaith y broses ymgynghori ar lesiant disgyblion yn ogystal â'r effaith debygol ar lesiant disgyblion pe bai angen iddynt symud ysgol. | Mae'r awdurdod yn cydnabod y gall cyfnodau o ansicrwydd a phontio fod yn heriol i blant, a bydd llesiant disgyblion yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog drwy gydol unrhyw broses newid.<br>Byddai cynllun pontio strwythuredig, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn cael ei roi ar waith ar gyfer pob disgybl. Byddai hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda theuluoedd a staff ysgol, cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ymweld â'r lleoliad newydd, a datblygu trefniadau pontio wedi'u teilwra i anghenion unigol. Byddai gan bob disgybl *Broffil Un Dudalen* yn nodi beth sy'n bwysig i'r plentyn, beth sy'n bwysig ar gyfer y plentyn a'r ffordd | 36 | 18% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | orau o'i gefnogi. Byddai gwybodaeth fanwl yn ymwneud â dysgu, cryfderau, anghenion a llesiant disgyblion yn cael ei rhannu gyda staff i sicrhau bod y cymorth yn parhau. Byddai meithrin perthynas gadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn ystod y broses bontio yn ffocws hanfodol, gan gefnogi ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn. | | |
| 13. | **<u>Mae Ysgol Lai yn Darparu Amgylchedd Dysgu Gwell ac mae Safonau Addysg wedi Gwella</u>**<br><br>Nododd yr ymatebwyr fod Ysgol Llansteffan yn amgylchedd dysgu gwell i blant nag ysgol fwy. Mae hyn oherwydd y nifer llai o blant a chymhareb disgybl/athrawon, mae staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu darparu ar gyfer eu hanghenion yn fwy priodol nag mewn ysgol fwy.<br><br>Yn ogystal, nododd rhai ymatebwyr fod safonau addysgol wedi gwella yn yr ysgol, gan ddangos newid cadarnhaol iddynt. | Mae'r Awdurdod o'r farn bod dylanwad ansawdd arweinyddiaeth, addysgu ac adnoddau ar effeithiolrwydd ysgolion yn fwy na dylanwad maint absoliwt. Mae tystiolaeth gan Estyn yn nodi'n gyson mai arweinyddiaeth gref ac addysgu o ansawdd uchel yw'r ffactorau mwyaf arwyddocaol wrth sicrhau a chynnal deilliannau gwell i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.<br><br>Yn y cyswllt hwn, mae'n bwysig nodi bod yr ysgol dderbyn arfaethedig hefyd yn ysgol fach â strwythur tebyg o ran dosbarthiadau, gan ddarparu amgylchedd dysgu tebyg i ddisgyblion. Hefyd, mae arweinyddiaeth eisoes wedi'i rhannu ar draws y ddwy ysgol, gan sicrhau y bydd y weledigaeth, y disgwyliadau, a'r dull addysgegol yn parhau. Ar hyn o bryd bernir bod gan y ddwy ysgol safonau boddhaol mewn dysgu, sy'n dangos | 41 | 20% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | bod anghenion addysgol disgyblion yn cael eu diwallu'n briodol yn y ddau leoliad.<br><br>Mae gwaith thematig Estyn yn tynnu sylw at y ffaith bod arweinyddiaeth gref yn sail i deithiau gwella drwy sefydlu cyfeiriad strategol clir, cryfhau ymarfer addysgu, a chreu'r amgylchedd lle gall dysgwyr ffynnu. Ar wahân i addysgu yn yr ystafell ddosbarth, cydnabyddir yn eang mai arweinyddiaeth yw'r ffactor pwysicaf sy'n dylanwadu ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r Awdurdod felly yn hyderus y bydd parhad trefniadau arweinyddiaeth yn cefnogi sefydlogrwydd a safonau parhaus i ddysgwyr sy'n trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn.<br><br>Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgol sy'n derbyn y gallu i gynnal a datblygu addysgu effeithiol ac ymarfer cynhwysol ymhellach. Mae arweinyddiaeth a rennir, systemau cyson, a threfniadaeth ysgol debyg yn darparu sylfaen gref ar gyfer sicrhau bod dysgu, llesiant, a chymorth yn parhau i bob disgybl.<br><br>Mae deilliannau o ran y Gymraeg yn cael eu sicrhau drwy addysgu o ansawdd uchel, cynnydd ieithyddol cyson a darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynaliadwy a gellir cynnal | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | a chryfhau pob un o'r rhain yn llawn o dan y trefniadau arfaethedig.<br><br>Ar y sail hon, er bod yr Awdurdod yn cydnabod canfyddiadau rhieni ynghylch manteision ysgolion bach, nid yw o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at safonau addysgol is nac ansawdd is o ran profiadau'r dysgwyr. Mae'r Awdurdod yn hyderus y byddai disgyblion yn parhau i dderbyn addysg mewn amgylchedd ysgol â strwythur tebyg, a fyddai'n cael ei chefnogi gan arweinyddiaeth ac addysgu effeithiol. | | |
| 14. | **<u>Ffederasiwn yn ei gyfanrwydd</u>**<br>Mynegodd yr ymatebwyr bryderon am gau un ysgol mewn ffederasiwn a sefydlwyd yn ddiweddar. | Cyn 2021, roedd yr ysgolion yn gweithredu o dan drefniant ffederasiwn meddal. Ers ffurfioli'r ffederasiwn caled, mae nifer y disgyblion ar draws y ffederasiwn cyfan wedi aros yn gymharol sefydlog, sy'n dangos bod y galw cyffredinol am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ehangach wedi cael ei gynnal.<br><br>Fodd bynnag, mae tueddiadau mewn ysgolion unigol yn y ffederasiwn wedi bod yn wahanol. Pan sefydlwyd y ffederasiwn caled, roedd 35 o ddisgyblion yn Ysgol Llansteffan, 41 o ddisgyblion yn Ysgol Llangain, a 39 o ddisgyblion yn Ysgol Bancyfelin. Ar 20 Ionawr 2026, roedd 16 o ddisgyblion yn Ysgol Llansteffan, 45 yn | 10 | 5% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ysgol Llangain, a 67 yn Ysgol Bancyfelin. Mae'r ffigurau hyn yn dangos, er bod nifer y disgyblion yn Ysgol Llangain wedi aros yn gyson ar y cyfan a bod Ysgol Bancyfelin wedi gweld twf, mae Ysgol Llansteffan wedi gweld gostyngiad o fwy na 50% yn nifer y disgyblion cofrestredig ers i'r ffederasiwn gael ei ffurfioli.<br><br>Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi bod 46 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Llansteffan yn dewis peidio â mynychu'r ysgol leol, ac yn hytrach yn cael mynediad at ddarpariaeth mewn mannau eraill. Mae’r patrwm hwn yn awgrymu mai newid o ran dewis y rhieni sydd wedi digwydd, yn hytrach na bod llai o ddisgyblion yn gyffredinol ar draws y ffederasiwn.<br><br>Mae'r Awdurdod o'r farn bod y tueddiadau hyn yn ffactor allweddol wrth asesu cynaliadwyedd hirdymor a defnydd effeithiol o adnoddau yn y ffederasiwn. Er bod y ffederasiwn wedi parhau i fod yn hyfyw ar y cyfan, mae'r lleihad parhaus yn nifer y disgyblion yn Llansteffan yn codi pryderon ynghylch defnyddio adnoddau ariannol a staffio yn effeithlon.<br><br>Ar y sail hon, mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn briodol adolygu'r ddarpariaeth bresennol i | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sicrhau y gall dysgwyr ledled y ffederasiwn gael eu haddysgu mewn lleoliadau sy'n addysgol gadarn, yn ariannol gynaliadwy, ac yn gallu bodloni'r galw yn y dyfodol. | | |
| 15. | **Parcio yn Ysgol Llangain**<br><br>Nododd yr ymatebwyr fod diffyg lleoedd parcio ar gael yn Ysgol Llangain a bod disgwyl i hyn waethygu pe bai Ysgol Llansteffan yn cau a'r disgyblion yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Llangain. | Nid yw'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o unrhyw bryderon ynghylch parcio yn Ysgol Llangain ar hyn o bryd.<br><br>Rhagwelir mai bach iawn fydd yr effaith ar barcio yn yr ysgol, oherwydd y posibilrwydd y bydd disgyblion Llansteffan yn defnyddio cludiant ysgol i ddod i'r ysgol. | 6 | 3% |
| 16. | **Ymgynghori â Disgyblion**<br><br>Nododd yr ymatebwyr eu siom ynghylch y diffyg ymgynghori â'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llansteffan a bod hyn yn ofynnol o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018. | Cafodd Dogfen Ymgynghori â Disgyblion oedd yn addas i'w hoedran ei pharatoi a'i rhannu gyda'r ysgol, i'w dosbarthu i bob disgybl.<br><br>Cafodd holiadur i ddisgyblion oedd yn addas i'w hoedran ei baratoi a'i ddosbarthu drwy ddolen mewn llythyr at rieni, er mwyn i ddisgyblion ei gwblhau. Hefyd rhoddwyd copi caled i'r disgyblion fynd ag ef adref. Roedd y llythyr a rannwyd gyda'r rhieni hefyd yn cynnwys cynnig cymorth ychwanegol, pe bai angen, gan nodi y gellid | 17 | 8.5% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gwneud trefniadau i gefnogi plant yn y ffordd sy'n diwallu eu hanghenion orau.<br><br>Cynigiwyd cyfle i'r ysgol i aelod o'r Awdurdod Lleol fynychu'r ysgol i esbonio a thrafod y cynnig.<br><br>Bydd yr holl adborth a dderbynnir gan ddisgyblion yn cael ei ystyried yn gydwybodol cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig. | | |

## Crynodeb o'r Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Mae'r tabl isod yn nodi themâu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny:

| **Rhif y Pwynt** | **Y Pwynt a Godwyd** | **Ymateb yr Awdurdod Lleol** | **Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** | **% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** |
|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau Cefnogol** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Nododd yr ymatebwyr, er y byddai'n drist gweld yr ysgol yn cau, nid yw cynnal yr ysgol gyda niferoedd isel o ddisgyblion a chost uchel fesul disgybl o gymharu hynny ag ysgolion eraill yn ddefnydd effeithiol o adnoddau ariannol. | Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r sylwadau a wnaed mewn perthynas â defnyddio adnoddau ariannol mewn modd effeithiol. Cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yw £18,545. Mae hyn £13,065 neu 238% yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Caerfyrddin, sef £5,480 ar gyfer 2025-26.<br><br>Mae'r ysgol hefyd yn rhagweld diffyg yn y gyllideb o bron i £26k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 25/26. | 3 | 1.5% |

## Adborth Disgyblion

Fel rhan o'r cynnig i gau i Ysgol Llansteffan, rhoddwyd cyfle i holl ddisgyblion yr ysgol gyflwyno eu barn i'w hystyried gan y Cyngor Sir.

Cynigiwyd cyfle i'r ysgol i aelod o'r Awdurdod Lleol fynychu'r ysgol i esbonio a thrafod y cynnig.

Roedd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd wrth y disgyblion fel a ganlyn:

| **Ymatebion disgyblion** | |
|---|---|
| Arolwg ar-lein | 3 |
| Arolwg papur | 4 |
| **Cyfanswm** | **7** |

Darperir crynodeb o'r arolwg disgyblion isod:

| Cwestiwn | Ymateb Disgybl |
|---|---|
| Oeddech chi'n gwybod bod y Cyngor yn meddwl am gau Ysgol Llansteffan? | Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'r cau arfaethedig tra bod rhai disgyblion yn nodi nad oeddent yn ymwybodol. |
| Dywedwch wrthym beth ydych chi'n ei feddwl am y syniad hwn: | Nododd disgyblion ei fod yn syniad drwg a gwirion i gau'r ysgol. Nododd y disgyblion eu bod yn teimlo'n drist, dan straen ac yn ddig am y syniad. Nododd y disgyblion nad ydyn nhw'n hoffi Ysgol Llangain ac nad ydyn nhw eisiau gadael Ysgol Llansteffan. |
| Sut ydych chi'n teimlo am symud i ysgol newydd o bosibl? | Nododd disgyblion eu bod yn bryderus, yn drist ac yn brifo am symud i ysgol newydd. |
| Pam ydych chi'n teimlo felly? | Nododd y disgyblion nad ydyn nhw eisiau i'r ysgol gau a'u bod yn hoffi Ysgol Llansteffan. Maen nhw'n meddwl bod yr ysgol yn ardderchog, gydag athrawon a chyfleusterau gwych sy'n galluogi'r disgyblion i weithio a dysgu yn yr awyr agored. Maen nhw hefyd yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Fe wnaethant hefyd nodi bod ganddyn nhw ffrindiau da yn yr ysgol.<br><br>Nododd disgyblion nad ydyn nhw'n hoffi Ysgol Llangain, mae'n ysgol lai ac nid |

| | |
|---|---|
| | oes ganddi'r un cyfleusterau ag Ysgol Llansteffan.<br><br>Nododd rhai disgyblion hefyd nad ydyn nhw eisiau symud ysgolion eto neu eu bod wedi symud i'r ysgol yn ddiweddar.<br><br>Nododd disgyblion nad oes neb wedi siarad â nhw am y newid posibl ac nad ydyn nhw'n teimlo y byddan nhw'n cael eu gwrando. |
| Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ysgol? | Nododd y disgyblion eu bod yn hoffi popeth am Ysgol Llansteffan. Maen nhw'n hoffi'r athrawon a bod yr ysgol yn lle hwyliog a thawel i ddysgu ynddo. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo ei bod yn amgylchedd croesawgar.<br><br>Mae'r disgyblion yn mwynhau gallu cerdded a beicio i'r ysgol a maent yn gallu cael mynediad i'r cyfleusterau awyr agored fel y traeth a'r parc. Maen nhw'n mwynhau gallu cerdded o gwmpas y pentref a chwrdd â phobl sy'n byw yn y gymuned. Maen nhw'n mwynhau'r cinio ysgol a gallu canu yn y neuadd.<br><br>Nododd y disgyblion eu bod yn hoffi eu ffrindiau ac nad oes gormod o blant yn yr ysgol. Maen nhw'n teimlo bod yr athrawon yn garedig ac yn adnabod y disgyblion. Maen nhw'n teimlo y gallant ddysgu'n iawn a bod athrawon yn gwrando arnynt. |
| Beth allai fod yn dda am fynd i ysgol newydd? | Yr unig beth a nododd y disgyblion a allai fod yn dda fyddai chwarae yn Ysgol Llangain. |
| Unrhyw bethau da eraill? | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach. |
| A oes unrhyw beth rydych chi'n teimlo'n bryderus amdano os yw'r ysgol yn cau? | Nododd y disgyblion eu bod yn poeni am golli ffrindiau a methu â gwneud ffrindiau newydd. Nododd disgyblion hefyd eu bod yn poeni am beidio â chael eu haddysgu gan yr un athrawon.<br><br>Nododd rhai disgyblion eu bod yn poeni am lawer o bethau oherwydd nad ydyn |

| | |
|---|---|
| | nhw'n gwybod sut beth yw Ysgol Llangain.<br><br>Nododd disgyblion hefyd nad ydyn nhw'n hoffi symud ysgol ac nad yw disgyblion yn ddigon mawr i symud ysgol. |
| Os oes gennych unrhyw bryderon, beth fyddai'n helpu i wneud symud i ysgol newydd yn haws i chi? | Nododd disgyblion y byddai cael yr un athrawon yn gwneud pethau'n haws.<br><br>Nodwyd hefyd y byddai teithiau i weld yr ysgol a'r disgyblion yn helpu gyda thrawsnewid.<br><br>Nododd rhai disgyblion hefyd na fyddai unrhyw beth yn helpu i wneud y symudiad yn haws. |
| Beth hoffech chi ei ddweud wrth yr oedolion sy'n gwneud y penderfyniad? | Roedd disgyblion eisiau ailadrodd eu bod yn teimlo'n drist, yn bryderus ac yn ddig am y posibilrwydd y bydd yr ysgol yn cau. Mae eu hysgol yn bwysig iddyn nhw.<br><br>Ailadroddodd y disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol, eu bod yn dysgu'n dda a bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer eu hanghenion dysgu. Maen nhw'n mwynhau gallu cerdded i'r ysgol.<br><br>Roedd disgyblion hefyd yn teimlo y byddai neb yn gwrando arnynt ac y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ystyried eu teimladau. Roedden nhw eisiau i gynghorwyr ystyried sut y byddent yn teimlo pe bai hyn yn digwydd iddyn nhw. |

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r adborth a ddarparwyd gan ddisgyblion ac yn cydnabod yr ymateb cryf ynglŷn a'r posibilrwydd o gau'r ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn dymuno egluro y bydd eu barn yn cael ei ystyried yn llawn cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig.

## Opsiynau Amgen

Mae'r tabl isod yn nodi'r opsiynau amgen a ddaeth i law i'w hystyried yn ystod y cyfnod cyflwyno gwrthwynebiadau, dadansoddiad yr Awdurdod Lleol o'r opsiynau amgen hynny a'i ymateb iddynt. Mae'r opsiynau hyn yn ychwanegol at y 7 opsiwn sydd eisoes wedi'u hystyried yn y papur cynnig, y mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod ei ddadansoddiad ohonynt yn dal i fod yn ddilys.

| **Opsiwn 8 – Gohirio'r cynnig am gyfnod o amser y cytunir arno** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Mae'r ysgol yn aros yn y gymuned leol. | Pwysau ariannol parhaus i'r ysgol. |
| Dim newid i ddisgyblion na staff yn y tymor byr, gan ddarparu parhad a sefydlogrwydd. | Mae'n ymestyn y cyfnod o ansicrwydd i'r gymuned. |
| Mae'n caniatáu amser ychwanegol ar gyfer ymgynghori. | Nid yw'n cyd-fynd â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg. |
| Mae'n caniatáu amser ychwanegol i ystyried tueddiadau o ran niferoedd disgyblion. | |
| Mae'n dangos bod yr Awdurdod Lleol yn barod i ystyried opsiynau eraill. | |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Amser i ystyried opsiynau amgen | Gallai greu disgwyliad afrealistig ynghylch canlyniad gwahanol. |
| Amser i ddatblygu mentrau a arweinir gan y gymuned | Dirywiad ariannol pellach. |
| Amser i gasglu set ddata ehangach o ran niferoedd disgyblion a chyllid ac ailasesu a chymharu. | Gallai nifer y disgyblion ostwng oherwydd ansicrwydd. |
| **Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**<br><br>Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu o fewn yr un ystafell ddosbarth, ar draws pedwar grŵp blwyddyn. Byddent yn cael mynediad addas at adnoddau i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae sicrhau darparu holl ehangder y cwricwlwm yn effeithiol mewn ysgol fach gydag un aelod o staff addysgu yn her enfawr o'i gymharu ag ysgol fwy sydd â chyflenwad mwy o staff ac arbenigedd. | |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned**<br><br>Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw. Fodd bynnag, byddai hyn yn rhoi amser i'r gymuned ddatblygu mentrau pellach a arweinir gan y gymuned i'w cynnal yn yr ysgol. | |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio** | |

| |
|---|
| Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau. |
| **Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn**<br><br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r niferoedd isel o ddisgyblion yn yr ysgol.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r afael â'r materion yn ymwneud â'r gyllideb yn yr ysgol.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau o ran cyflwyno'r cwricwlwm. |

| **Opsiwn 9 – Ystyried opsiynau refeniw i'r ysgol megis llogi ystafelloedd gwag ar gyfer Cylch Meithrin, busnesau bach, mentrau cymunedol ac ati.** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Mae'n creu refeniw ychwanegol i'r ysgol. | Mwy o waith gweinyddol i aelod o staff ei reoli. |
| Mae'n gwneud y defnydd mwyaf o'r adeilad. | Mwy o waith cynnal a chadw'r adeilad. |
| Cryfhau cysylltiadau â'r gymuned. | Byddai angen rheoli mynediad a diogelu yn effeithiol. |
| Dilyniant naturiol o'r Cylch Meithrin i'r ysgol gynradd. | Llai o hyblygrwydd o ran lleoedd o bosib pe bai nifer y disgyblion yn cynyddu. |
| Rhannu costau cyfleustodau. | Costau ychwanegol posibl ar gyfer gwaith gofalwr, ac ati. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Cyfle ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng y blynyddoedd cynnar. | Byddai angen yswiriant priodol a chydymffurfiaeth ar gyfer pob lleoliad. |
| Cyfle ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng yr ysgol a'r gymuned. | Colli incwm os bydd tenant yn penderfynu gadael. |
| Potensial ar gyfer gofal cofleidiol. | Pwysau ychwanegol ar y gyllideb. |
| Gallai helpu i wella cyllid. | |
| Gallai'r ysgol fod yn ganolbwynt i'r gymuned gan ddarparu nifer o wasanaethau. | |
| **Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**<br><br>Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu o fewn yr un ystafell ddosbarth, ar draws pedwar grŵp blwyddyn. Byddent yn cael mynediad addas at adnoddau i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae sicrhau darparu holl ehangder y cwricwlwm yn effeithiol mewn ysgol fach gydag un aelod o staff addysgu yn her enfawr o'i gymharu ag ysgol fwy sydd â chyflenwad mwy o staff ac arbenigedd. | |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned** | |

| |
|---|
| Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw. Fodd bynnag, gallai datblygu Cylch Meithrin ddarparu gofal cofleidiol os oes galw amdano. Hefyd, gall hyn helpu busnesau lleol sy'n chwilio am leoliad bach i weithredu ohono, gan ddarparu cysylltiadau uniongyrchol â'r gymuned. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br><br>Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau. |
| **Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn**<br><br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r niferoedd isel o ddisgyblion yn yr ysgol.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.<br>• Gallai helpu i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'r gyllideb yn yr ysgol.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau o ran cyflwyno'r cwricwlwm. |

| **Opsiwn 10 – Rhannu safle ysgol rhwng Ysgol Llangain ac Ysgol Llansteffan** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Mae'n cadw presenoldeb ysgol yn Llansteffan. | Mae costau cynnal dau adeilad yn parhau heb gynnydd yn nifer y disgyblion. |
| Mae'n galluogi dosbarthiadau sy'n briodol i'r oedran (wedi'u rhannu rhwng y Cyfnod Sylfaen a CA2) | Efallai y byddai angen i staff deithio rhwng dau safle |
| Gall yr ysgol barhau i weithredu ar un safle os bydd problemau yn codi yn ymwneud ag un adeilad. | Byddai angen proses statudol i gau un ysgol o hyd. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Gellir addasu pob safle yn ôl anghenion y cwricwlwm ar gyfer y grwpiau blwyddyn perthnasol. | Heriau i rieni os yw brodyr a chwiorydd mewn ysgolion gwahanol. |
| Mae'n cynnal cysylltiadau â'r ddwy gymuned. | Gallai cynaliadwyedd hirdymor fod yn broblem o hyd. |
| Cyfle i greu canolfannau cymunedol. | |
| | |
| **Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**<br><br>Efallai y byddai cyfleoedd i ddisgyblion gael eu rhannu i ddosbarthiadau sy'n fwy priodol i'w hoedran, ond byddai hyn yn dibynnu ar adnoddau ariannol i gyllido staffio. Byddent yn cael mynediad addas at adnoddau i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru. | |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned** | |

| |
|---|
| Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai ysgol yn aros yn y ddau bentref a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw. Fodd bynnag, gallai fod effaith ar y gymuned os oes angen i rieni deithio i ddau safle gwahanol. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br><br>Efallai y byddai angen i rieni deithio i ddau safle gwahanol. |
| **Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn**<br><br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r niferoedd isel o ddisgyblion yn yr ysgolion.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgolion.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'r gyllideb.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael yn sylweddol â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.<br>• Gallai helpu i fynd i'r afael â'r problemau o ran cyflwyno'r cwricwlwm. |

| **Opsiwn 11 – Cau Ysgol Llangain a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llansteffan** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Mae'n cadw darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Llansteffan. | Byddai angen proses statudol o hyd i gau Ysgol Llangain. |
| Byddai materion megis lefelau uchel o leoedd gwag a niferoedd isel o ddisgyblion yn cael sylw. | Tarfu a chyfnod ansefydlog i ddisgyblion a'u teuluoedd a all beri pryder. |
| Gallai materion o ran y gyllideb gael sylw. | Cau'r ysgol a cholli darpariaeth addysg yn y gymuned. |
| Byddai'r disgyblion yn elwa ar fynychu ysgol fwy gyda charfan o ddisgyblion o oedran tebyg. Mae hyn yn darparu'r cyfle a'r manteision sy'n gysylltiedig â chael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o oedrannau tebyg. | Tarfu ar staff a'r posibilrwydd o ddileu swyddi. |
| Gan fod Ysgol Llansteffan ac Ysgol Llangain eisoes yn rhan o ffederasiwn ffurfiol, mae disgyblion eisoes yn gyfarwydd â'r staff ac mae ganddynt gysylltiadau cryf ar draws y ddwy ysgol. | Colli ased cymunedol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol. |
| Bydd y disgyblion yn cael eu symud i'r un ysgol i sicrhau eu bod yn aros gyda'i gilydd ac yn cynnal eu grwpiau cyfeillgarwch. | Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddarparu cludiant i'r disgyblion yr effeithir arnynt a fydd yn cynyddu costau cludiant. |

| | |
|---|---|
| | Gallai pellter teithio gynyddu a chael effaith negyddol ar yr amgylchedd. |
| | Mae Ysgol Llangain yn ysgol 3-11 ac felly byddai angen proses statudol i newid Ysgol Llansteffan yn ysgol 3-11. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Defnyddio ardal sydd ag amrywiaeth eang o gyfleusterau awyr agored fel y traeth, y goedwig a'r castell. | Gwrthwynebiad gan rieni i'r cynnig. |
| Potensial i wella hyfywedd addysg ar draws y sir. | Gwrthwynebiad gan y gymuned i'r cynnig. |
| Potensial i sicrhau derbyniad cyfalaf drwy werthu'r adeilad ysgol presennol. | Oherwydd ffactorau daearyddol, efallai y bydd rhai rhieni Llangain yn dewis gadael y ffederasiwn a chludo disgyblion tuag at Gaerfyrddin. |

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**

Efallai y byddai cyfleoedd i ddisgyblion gael eu rhannu i ddosbarthiadau sy'n fwy priodol i'w hoedran, ond byddai hyn yn dibynnu ar adnoddau ariannol i ariannu staffio. Byddent yn cael mynediad addas at adnoddau i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru.

**Yr effaith debygol ar y gymuned**

Gall colli ysgol yn Llangain gael effaith ar y gymuned leol o ran cyfleusterau ysgol lleol.

**Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**

Mae'r cynigion yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio disgyblion. Bydd y disgyblion yn wynebu teithiau hirach i'r ysgol. Darperir cludiant am ddim yn unol â pholisi cludiant Cyngor Sir Caerfyrddin. Gallai'r cynnig effeithio ar rieni sydd â phlant nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim ac efallai'n gorfod teithio ymhellach i fynd i ddigwyddiadau yn yr ysgol.

**Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn**

- Gallai fynd i'r afael â'r niferoedd isel o ddisgyblion yn yr ysgol.
- Gallai fynd i'r afael â'r lefel uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.
- Gallai helpu i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'r gyllideb yn yr ysgol.
- Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.

**Opsiwn 12 – Cau Ysgol Llangain ac Ysgol Bancyfelin a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llansteffan**

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|

<table>
<tr><td>Mae'n cadw darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Llansteffan.</td><td>Byddai angen proses statudol o hyd i gau Ysgol Llangain ac Ysgol Bancyfelin.</td></tr>
<tr><td>Byddai materion megis lefelau uchel o leoedd gwag a niferoedd isel o ddisgyblion yn cael sylw.</td><td>Tarfu a chyfnod ansefydlog i ddisgyblion a'u teuluoedd a all beri pryder.</td></tr>
<tr><td>Gallai materion o ran y gyllideb gael sylw.</td><td>Cau'r ysgol a cholli darpariaeth addysg yng nghymunedau Llangain a Bancyfelin.</td></tr>
<tr><td>Byddai'r disgyblion yn elwa ar fynychu ysgol fwy gyda charfan o ddisgyblion o oedran tebyg. Mae hyn yn darparu'r cyfle a'r manteision sy'n gysylltiedig â chael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o oedrannau tebyg.</td><td>Tarfu ar staff a'r posibilrwydd o ddileu swyddi.</td></tr>
<tr><td>Gan fod y tair ysgol i gyd eisoes yn rhan o ffederasiwn ffurfiol, mae disgyblion eisoes yn gyfarwydd â staff ac mae ganddynt gysylltiadau cryf ar draws y ddwy ysgol.</td><td>Colli ased cymunedol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol.</td></tr>
<tr><td>Bydd y disgyblion yn cael eu symud i'r un ysgol i sicrhau eu bod yn aros gyda'i gilydd ac yn cynnal eu grwpiau cyfeillgarwch.</td><td>Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddarparu cludiant i'r disgyblion yr effeithir arnynt a fydd yn cynyddu costau cludiant.</td></tr>
<tr><td>Capasiti yn yr ysgol i ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgol Llangain ac Ysgol Bancyfelin?</td><td>Gallai pellter teithio gynyddu a chael effaith negyddol ar yr amgylchedd.</td></tr>
<tr><td></td><td>Byddai angen proses statudol i newid Ysgol Llansteffan yn ysgol 3-11.</td></tr>
<tr><td>Cyfleoedd</td><td>Bygythiadau</td></tr>
<tr><td>Defnyddio ardal sydd ag amrywiaeth eang o gyfleusterau awyr agored fel y traeth, y goedwig a'r castell.</td><td>Gwrthwynebiad gan rieni i'r cynnig.</td></tr>
<tr><td>Potensial i wella hyfywedd addysg ar draws y sir.</td><td>Gwrthwynebiad gan y gymuned i'r cynnig.</td></tr>
<tr><td>Potensial i sicrhau derbyniadau cyfalaf drwy werthu'r adeiladau ysgol presennol.</td><td>Oherwydd ffactorau daearyddol, efallai y bydd rhai rhieni o Ysgol Llangain ac Ysgol Bancyfelin yn dewis gadael y ffederasiwn a chludo disgyblion tuag at Gaerfyrddin.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg<br><br>Efallai y byddai cyfleoedd i ddisgyblion gael eu rhannu i ddosbarthiadau sy'n fwy priodol i'w hoedran, ond byddai hyn yn dibynnu ar adnoddau ariannol i ariannu staffio. Byddent yn cael mynediad addas at adnoddau i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yr effaith debygol ar y gymuned</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Gallai colli ysgol yn Llangain a Bancyfelin gael effaith ar y gymuned leol o ran cyfleusterau ysgol lleol. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br><br>Mae'r cynigion yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio disgyblion. Bydd y disgyblion yn wynebu teithiau hirach i'r ysgol. Darperir cludiant am ddim yn unol â pholisi cludiant Cyngor Sir Caerfyrddin. Gallai'r cynnig effeithio ar rieni sydd â phlant nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim ac efallai'n gorfod teithio ymhellach i fynd i ddigwyddiadau yn yr ysgol. |
| **Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn**<br><br>• Gallai fynd i'r afael â'r niferoedd isel o ddisgyblion yn yr ysgol.<br>• Gallai fynd i'r afael â'r lefel uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.<br>• Gallai helpu i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'r gyllideb yn yr ysgol.<br>• Gallai fynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol. |

| **Opsiwn 13 – Ehangu dalgylch Ysgol Llansteffan** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Gallai gynyddu niferoedd disgyblion. | Amser teithio hwy i rai disgyblion. |
| Gallai helpu i wella cynaliadwyedd ariannol yr ysgol. | Gallai dynnu disgyblion posibl o'r dalgylchoedd cyfagos. |
| | Efallai na fydd nifer y disgyblion yn cynyddu oherwydd dewis y rhieni. |
| | Mae angen proses ymgynghori i ymgymryd â'r newid hwn. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| | Efallai y bydd ysgolion dalgylch cyfagos yn gwrthwynebu'r newid. |
| | Risg o anfantais i ddisgyblion nad ydynt efallai yn gymwys i gael cludiant. |
| | Gallai gael effaith negyddol ar nifer y disgyblion mewn ysgolion eraill. |
| **Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**<br><br>Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn yr un ystafell ddosbarth, ar draws pedwar grŵp blwyddyn, oni bai bod y niferoedd yn cynyddu'n sylweddol a bod angen dosbarth ychwanegol. Ni fyddai hyn yn gost-effeithiol gan y byddai adnoddau yn cael eu gwario'n bennaf ar staff addysgu, gan adael cyfalaf cyfyngedig ar gyfer adnoddau i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm a chyflawni dysgu. Byddent yn cael mynediad addas at adnoddau i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae sicrhau darparu holl ehangder y cwricwlwm yn effeithiol mewn ysgol fach gydag un aelod o staff addysgu yn her enfawr o'i gymharu ag ysgol fwy sydd â chyflenwad mwy o staff ac arbenigedd. | |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned** | |

| |
|---|
| Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br><br>Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau. Er hynny, efallai y bydd gan rai disgyblion amseroedd teithio hwy yn dibynnu ar ble maent yn byw yn y dalgylch newydd. |
| **Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn**<br><br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r niferoedd isel o ddisgyblion yn yr ysgol.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.<br>• Mae'n annhebygol o helpu i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'r gyllideb yn yr ysgol.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau o ran cyflwyno'r cwricwlwm. |

| **Opsiwn 14 – Trosglwyddo'r ysgol fel ased i'r gymuned er mwyn i'r gymuned gynnal ysgol fach** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Gallai annog atebolrwydd lleol cryfach ar gyfer yr ysgol. | Diffyg profiad yn y gymuned o gynnal ysgol. |
| | Rhwystrau a rhwymedigaethau deddfwriaethol. |
| | Cefnogaeth ariannol gyfyngedig a dibyniaeth ar ffrydiau cyllido. |
| | Byddai angen strwythurau cadarn ar waith ar gyfer rheoli'r ysgol. |
| | Gallai hyfywedd hirdymor fod yn broblem. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Cydweithio rhwng yr ysgol a'r gymuned. | Methu â bodloni safonau addysgol. |
| Cymhwysedd ar gyfer ffrydiau cyllido amrywiol. | Efallai na fyddai arweinyddiaeth gymunedol yn gynaliadwy yn y tymor hir. |
| Defnydd cymunedol ehangach o'r adeilad. | |
| | |
| **Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**<br><br>Efallai y byddai cyfleoedd i ddisgyblion gael eu rhannu i ddosbarthiadau sy'n fwy priodol i'w hoedran, ond byddai hyn yn dibynnu ar adnoddau ariannol gan y | |

| |
|---|
| gymuned i ariannu staffio. Mae risg i ansawdd a safonau addysg heb gyfraniad yr Awdurdod Lleol. |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned**<br>Byddai'r gymuned yn gyfrifol am yr ased ac am reoli'r ysgol ac felly byddai angen strategaethau cadarn ar waith ar gyfer rheoli'r ysgol, ei staff a'i disgyblion. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br><br>Dim effaith ar deithio gan y byddai'r ysgol yn aros yn y pentref. |
| **Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn**<br><br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r niferoedd isel o ddisgyblion yn yr ysgolion.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgolion.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â materion o ran y gyllideb.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.<br>• Mae'n annhebygol o fynd i'r afael â'r problemau o ran cyflwyno'r cwricwlwm. |

Cydnabuwyd y ddau opsiwn canlynol ond cafwyd eu gwrthod oherwydd diffyg gwybodaeth am y cynnig:

- Cau ysgol cyfrwng Saesneg

- Symud yr ysgol i leoliad llai